Mewnwelediad a Deallusrwydd Awst 2026

Yn ystod mis Awst 2026, ymwelodd tîm Ymgysylltu y Bwrdd Iechyd â **7** o leoliadau ledled Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen gan siarad â chyfanswm o **168** o bobl (135 Benyw a 33 Gwryw). Bu'r tîm yn rhyngweithio â phobl ar draws amrywiol leoliadau, gan gynnwys lleoliadau cymunedol, digwyddiadau wedi'u trefnu ac yn eu gweithleoedd trwy gyflogwyr mawr.

Beth glywsom ni?

- Dangosodd sgyrsiau trwy gydol mis Awst bod gan y cyhoedd ddiddordeb o hyd mewn mentrau iechyd ataliol, yn enwedig ymwybyddiaeth sepsis, iechyd menywod, rhaglenni brechu a gwasanaethau sgrinio.
- Mae mynediad at ddeintyddiaeth y GIG yn parhau i fod yn bryder. Nid oedd llawer o bobl yn ymwybodol o'r Porth Mynediad Deintyddol ond dangoswyd diddordeb cryf mewn cofrestru ar ôl cael eu hysbysu. Dywedodd rhai unigolion eu bod wedi wynebu costau sylweddol am driniaeth ddeintyddol breifat oherwydd anawsterau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG.
- Roedd yr adborth ynglŷn â gwasanaethau meddygon teulu yn gymysg. Er bod pryderon wedi'u codi am anawsterau o ran cael apwyntiadau a phryder am amser byr yr ymgynghoriadau, rhannodd mynychwyr enghreifftiau o brofiadau cadarnhaol ac arfer da o fewn meddygfeydd meddygon teulu unigol.
- Roedd yn amlwg bod mwy o ymwybyddiaeth o ddewisiadau amgen yn hytrach nag apwyntiadau meddygon teulu traddodiadol.
- Mae amseroedd aros yn parhau i fod yn un o'r pryderon a godir amlaf, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau Orthopedig, Cardioleg ac Awdioleg. Adroddodd rhai unigolion hefyd mai ychydig o gyfathrebu a diweddariadau sydd ar gael wrth aros am driniaeth neu apwyntiadau.
- Mynegwyd rhwystredigaeth ynglŷn â newidiadau i wasanaethau gofal iechyd digidol, yn enwedig Ap y GIG a phrosesau presgripsiwn amlroddadwy. Amlygwyd y gallai systemau digidol gyflwyno heriau i rai defnyddwyr a gallant greu rhwystrau o ran cael mynediad at wasanaethau.
- Derbyniwyd adborth cadarnhaol yn gyson ynglŷn â staff y GIG, gyda llawer o bobl yn mynegi gwerthfawrogiad am y gofal, y proffesiynoldeb a'r gefnogaeth yr oeddent wedi'u profi.
- Drwy gydol mis Awst, cefnogodd y tîm breswylwyr drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chyfeirio at ystod o wasanaethau, gan gynnwys Llais, y Gwasanaeth Cyngor a Chyswllt i Gleifion (PALS) a Gwrando ar Bobl, gan helpu unigolion i gael mynediad at gymorth ac








Beth nesaf?

Dros y misoedd nesaf, bydd y tîm yn parhau i rannu gwybodaeth am:

- Wasanaethau Sgrinio Canser a Chymorth Iechyd Menywod ar gyfer gwasanaethau iechyd mislif, atal cenhedlu a'r menopos
- Yn ogystal ag Ymwybyddiaeth Sepsis, Brechiadau gan gynnwys Ffliw, RSV a MenB, a chymorth iechyd meddwl

Bydd y tîm hefyd yn ymgysylltu â staff y Bwrdd Iechyd ar draws ein safleoedd ysbytai.

Mae'r holl adborth a dderbynnir yn cael ei gofnodi a'i adolygu i nodi themâu a thueddiadau allweddol. Rydym yn rhannu'r hyn rydyn ni wedi'i glywed gyda'r timau sy'n gyfrifol am y gwasanaethau hynny a chyda uwch arweinwyr. Mae'r mewnwelediadau yn helpu i siapio gwelliannau i wasanaethau, penderfyniadau cynllunio a pholisïau. Rydym hefyd yn anelu at gau'r ddolen trwy rannu diweddariadau gyda chymunedau fel y gall pobl weld sut mae eu hadborth wedi helpu i ddylanwadu ar newid. I gael rhagor o wybodaeth am ymgysylltu â'r gymuned, ewch i'n gwefan:

https://bipab.gig.cymru/amdanom-ni/ymgysylltu/ymgysylltu-cymunedol/